Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CIPS

# Datblygu gweithwyr proffesiynol ar gyfer dyfodol caffael Cymru

**Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cynllun uchelgeisiol ar waith i feithrin gallu a medrusrwydd ym maes caffael y sector cyhoeddus. Ei nod yw gwella sgiliau gweithwyr proffesiynol yn ogystal â'u paratoi ar gyfer ddarparu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Ar yr adeg dyngedfennol hon, dewisodd Llywodraeth Cymru gymhwyster dysgu cyflym, cymhwysol CIPS i chwarae rhan wrth greu gweithwyr proffesiynol y dyfodol.**

"Mae'r Rhaglen Dysgu Cymhwysol (y Wobr Gorfforaethol) yn cyflymu dysgu ac mae'n effeithiol oherwydd ei bod yn uniongyrchol gysylltiedig â gwaith beunyddiol y myfyrwyr, ac mae eu sefydliad yn cael budd o'r aseiniadau byd-go-iawn y maent yn gweithio arnynt."

**Denise Raffill**
Uwch Reolwr Medrusrwydd Masnachol ac Arweinyddiaeth, Llywodraeth Cymru



**ASTUDIAETH ACHOS**
**RHAGLEN DYSGU CYMHWYSOL**

## Gweithio er lles

Pan lansiodd Llywodraeth Cymru ei chynllun bedair blynedd yn ôl, roedd prinder gweithwyr proffesiynol caffael cyhoeddus ac roedd angen datblygu gweithlu mwy aeddfed yn fasnachol. Cafodd y sefyllfa ei gwaethygu gan gyfnod Covid, gan achosi ffocws ar atebolrwydd a phwysau caffael digynsail.

Roedd caffael eisoes wedi cael ei enwi fel sbardun ar gyfer newid yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol arloesol Cymru, a fydd yn trawsnewid y ffordd y mae caffael yn cael ei gynllunio a'i ddarparu. Ar y gorwel, roedd tri bil caffael newydd hefyd yn debygol o arwain at newid sylweddol.

Yn erbyn y cefndir hwn, penderfynodd Llywodraeth Cymru fod yn rhaid i'w hyfforddiant arfaethedig ymestyn y tu hwnt i'w swyddogaeth gaffael ei hun. Penderfynodd gynnwys y sector cyhoeddus ehangach, gwella effeithiolrwydd caffael cyhoeddus yn ei gyfanrwydd a chynyddu ei fudd i economi a chymdeithas Cymru.

## Dull pragmatig o weithredu

Mae Llywodraeth Cymru wedi edrych ers amser maith at CIPS ar gyfer hyfforddiant caffael proffesiynol. Y tro hwn, arweiniodd yr angen am gyflymder a chymhwyso'r hyn a ddysgwyd yn syth, at Raglen Dysgu Cymhwysol CIPS (y Wobr Gorfforaethol).

I ddechrau, gwnaeth CIPS deilwra cynnwys y cwrs i'r sector cyhoeddus yng Nghymru, gan sicrhau ei fod yn berthnasol ac yn adlewyrchu polisïau caffael y rhanbarth a strategaethau ehangach y Llywodraeth. Roedd hyn yn dod â phopeth yn fyw i fyfyrwyr, ac yn atgyfnerthu gwerth ymarferol y rhaglen.

Mae myfyrwyr hefyd yn gwerthfawrogi sut mae'r aseiniadau a aseswyd yn eu galluogi i gymhwyso'r wybodaeth sy'n newydd iddynt i heriau'r byd go iawn yn eu sefydliadau eu hunain - ac ennill clod am eu datrysiadau a'u harloesi. Mae cyfraddau llwyddo wedi bod yn rhagorol ac mae nifer y ceisiadau ar gyfer y rhaglen wedi cynyddu o flwyddyn i flwyddyn.

# Y manteision i Llywodraeth Cymru

**Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i arolygon yn y dyfodol gadarnhau bod Rhaglen Dysgu Cymhwysol CIPS (y Wobr Gorfforaethol) yn sicrhau elw cyflym ar fuddsoddiad ac yn rhoi budd i gaffael cyhoeddus Cymru a'r wlad trwy:**

- Gynyddu gallu proffesiynol i yrru gwariant gwell o'r bunt Gymreig
- Cyfarparu gweithwyr proffesiynol caffael â gwybodaeth ymarfer gorau, ffyrdd newydd o feddwl a sgiliau datrys problemau
- Cefnogi cymhwysiad ymarferol theori caffael mewn ymarfer ledled Cymru
- Tyfu statws proffesiynol caffael yng Nghymru a'i atyniad fel gyrfa
- Galluogi gweithwyr proffesiynol caffael i gyflawni eu potensial yng Nghymru ac i'r sector cyhoeddus yng Nghymru gadw gweithwyr dawnus
- Creu gallu caffael trwy gynyddu nifer y gweithwyr proffesiynol caffael hyfforddedig ac arweinwyr y dyfodol
- Codi proffil yr hyn y mae'r proffesiwn yn ei wneud a'i botensial ar gyfer effaith ranbarthol.

## Agor cyfleoedd

Mae poblogrwydd Rhaglen Dysgu Cymhwysol CIPS (y Wobr Gorfforaethol) fel llwybr di-arholiad i statws proffesiynol siartredig, hyd at MCIPS, wedi bod yn fantais i Lywodraeth Cymru. Mae wedi golygu bod niferoedd myfyrwyr yn uchel ac mae rhwydweithiau proffesiynol newydd yn cael eu datblygu'n frwdfrydig ymhlith myfyrwyr y gorffennol a'r presennol.

Mae Tracy Pope, Pennaeth Contractio Gofal Iechyd Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr, yn un myfyriwr o'r fath. 'Mae fy mhrofiad o astudio a llwyddo ar y Rhaglen wedi rhoi angerdd a brwdfrydedd i mi gyflawni achrediad MCIPS llawn trwy ddatblygu fy sgiliau a'm gwybodaeth ymhellach" meddai, "Mae'r cyfle i ddatblygu fy sgiliau trwy raglen dysgu cymhwysol yn y gwaith wedi arwain at fanteision mesuradwy i mi fy hun, fy nhîm a'r sefydliad."

I Lywodraeth Cymru, mae effaith y rhaglen yn glir. Maent yn gweld myfyrwyr yn mynd yn ôl allan i'w sefydliadau ar draws y rhanbarth â mwy o hyder a gwybodaeth ac, yn hollbwysig, y gallu i gymhwyso a rhannu eu dysgu.

"Mae cynyddu cynaliadwyedd a thwf hirdymor y proffesiwn yng Nghymru yn allweddol er mwyn cyflawni mewn cyfnod newydd ar gyfer caffael. Mae Rhaglen Dysgu Cymhwysol CIPS (y Wobr Gorfforaethol) yn un o'r opsiynau allweddol y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddarparu fel rhan o'i hymrwymiad i ennill, cadw a datblygu gweithwyr dawnus. Rwy'n awyddus ein bod yn cyflawni ein rôl fel partner strategol trwy ddarparu cyfleoedd dysgu a datblygu i adeiladu model gweithredu'r dyfodol ar gyfer sector cyhoeddus Cymru."

**John Coyne**
Cyfarwyddwr, Caffael a Masnachol, Llywodraeth Cymru

## Cynnydd a gyflawnwyd

**£8.74**

**Biliwn** yn cael ei wario bob blwyddyn gan y sector cyhoeddus yng Nghymru

**230**

Mae **Llywodraeth Cymru** wedi ariannu cymwysterau'r Rhaglen Dysgu Cymhwysol (Gwobr Gorfforaethol) ar gyfer **mwy na 230 o leoedd**



“Mae cymaint o newidiadau yn effeithio ar gaffael yng Nghymru ac mae'n adeg gyffrous iawn i fod yn gweithio yn y sector cyhoeddus. Dymunwn fod yn gallu cefnogi Llywodraeth Cymru yn ei hymgyrch gallu medrusrwydd oherwydd dyna hanfod ein rôl fel corff proffesiynol cyhoeddus.”

**Emma Clements**
Pennaeth Gwerthiant Corfforaethol, CIPS

## Ynglŷn â'r Rhaglen Dysgu Cymhwysol

- **Dim arholiadau**
  Aseiniadau yn y gwaith yn hytrach nag arholiadau sy'n gyrru dysgu'n syth yn ôl i'r busnes ac yn darparu elw profedig ar fuddsoddiad.
- **Achrediad cydnabyddedig**
  Yn cynnig llwyr proffesiynol i'ch timau i statws MCIPS a Siartredig.
- **Wedi'i deilwra i chi**
  Wedi'i addasu i fodloni'r heriau penodol y mae'ch sefydliad yn eu hwynebu.
- **Datblygu doniau**
  Trwy gynnig llwybr ar gyfer datblygu gyrfa gallwch ddenu, cadw a datblygu gweithwyr dawnus.

Sganiwch y cod QR i gael mwy o wybodaeth

## Eisiau gweld sut y gallwn ddatblygu eich tîm caffael a chyflenwi?

**Cysylltwch â ni:**
**corporate.solutions@cips.org**

**www.cips.org/cips-for-business**